Atebion Polisi
Policy Solutions

Cyfres o seminarau Atebion Polisi a gyflwynir i chi gan ColegauCymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

ColegauCymru
CollegesWales

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

FFEDERASIWN HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL CYMRU
NTfW
NATIONAL TRAINING FEDERATION WALES

Pam y daethom at ein gilydd

Nod ein seminarau Atebion Polisi oedd cyflwyno meddwl ffres a syniadau newydd i heriau allweddol ym maes polisi cyhoeddus ac i ddechrau deialog a chreu trafodaethau gyda'n haelodau a'n cefnogwyr, gydag Aelodau'r Cynulliad, eu staff a swyddogion. Fodd bynnag, roeddem hefyd eisiau bod yn herfeiddiol ac yn adeiladol, a meithrin perthynas newydd trwy drafodaethau o fewn y sectorau dysgu, sgiliau a chyflogaeth a thu hwnt.

Roedd cydweithredu rhwng tri sefydliad gwahanol, sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol, elusen a chwmni cyfyngedig a sefydliad aelodaeth yn gofyn am rannu gweledigaeth ar gyfer dylanwadu ar newid. Mae'r tri wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes, hygyrchedd, cyflogadwyedd pob oed ac addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 o ansawdd da. Mae pob un o'r elfennau hyn yn allweddol i greu gweithlu medrus, cynaliadwy sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru.

Yr hyn a grëwyd

Roedd ein seminarau Atebion Polisi yn canolbwyntio ar faterion lle gall dysgu, sgiliau a chyflogaeth helpu i gyflawni twf economaidd, canlyniadau addysgol gwell, cyflogaeth uwch, gwelliannau mewn cynhyrchiant, iechyd a lles gwell, cynhwysiant cymdeithasol, goddefgarwch a chydlyniant, ac ymgysylltu'r gymuned a dinasyddion. Ein nod yn gyffredinol oedd ennyn diddordeb a thrafodaeth yn y ffordd y gellir gwella polisi cyhoeddus a sut y gellir gweithredu polisi i greu cymdeithas fwy cynhwysol, tecach a llwyddiannus.

Fe wnaethom nodi pum mater allweddol a chynnal pum seminar atebion polisi trwy gydol haf 2016 i ysgogi, herio a rhoi lle ar gyfer meddwl yn arloesol ac atebion newydd. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn unol â 'rheolau Chatham House' er mwyn annog rhyddid i lefaru a chyfraniadau gonest. Yn hynny o beth, nid yw'r syniadau a'r awgrymiadau sydd wedi eu cynnwys yn y papur hwn wedi eu priodoli i unigolion na sefydliadau, ond yn adlewyrchu'r trafodaethau amrywiol a bywiog a gafwyd.

Ein cynulleidfa oedd Aelodau'r Cynulliad o bob plaid, eu staff a'n rhanddeiliaid ehangach sydd yn gweithio yn y maes hwn neu fyddai'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau polisi. Anogwyd y cyfranogwyr i fabwysiadu meddylfryd ffres am werth gwirioneddol addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 yn creu gweithlu cwbl fedrus i Gymru.

Y pum prif fater a nodwyd oedd:

1. Sgilio Oedolion i'r Gwaith
2. Rôl Addysg ôl-16 Wrth Daclo Tlodi
3. Gwerth Sgiliau i'r Economi
4. Sgiliau Iaith Gymraeg i'r Gwaith
5. Darparu Prentisiaethau o'r Safon Uchaf yng Nghymru

Cynhaliwyd y digwyddiadau mewn lleoliadau amrywiol: Tŷ Hywel, yr Oriel ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ein Seminarau Atebion Polisi

1. Sgilio Oedolion i'r Gwaith

Noddwr: Simon Thomas AC
Siaradwr Gwadd: Mark Isherwood, Prif Weithredwr WEA YMCA CC Cymru
Gwesteiwr: Cerys Furlong, y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Dyddiad: 18 Mai 2016, Tŷ Hywel

i) Yr Her

- Credwn fod mynediad i sgiliau a dysgu yn hanfodol i bobl aros yn iach, yn gynhyrchiol ac yn hapus yn y gwaith ac yn ystod ymddeoliad. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diweddar mae buddsoddiad mewn sgiliau ac addysg i oedolion yng Nghymru wedi canolbwyntio'n sylweddol ar oedolion ifanc, pobl 16-24 oed, tra bod niferoedd yr oedolion sydd yn dysgu wedi gostwng yn sylweddol – yn yr un modd â buddsoddiad cyhoeddus.

- Credwn hefyd nad gwaith yw'r unig ateb i dlodi. Mae tystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dangos mai tlodi mewn gwaith sydd yn cadw cyfraddau tlodi yn uchel yng Nghymru. Felly nid yw cael gwaith i bobl, unrhyw waith, yn arbennig gwaith tymor byr, yn ateb cynaliadwy i drechu tlodi na gwella twf economaidd a chynhyrchiant.
- Nid ydym yn gwneud llawer o ymchwil na chasglu data ar lefelau sgiliau oedolion yng Nghymru, ac yn dibynnu gormod ar brofiad neu dystiolaeth anecdotaidd o'r hyn y credwn sydd yn gweithio. Mae Sefydliad Bevan yn rhagfynegi, erbyn 2020, y bydd 1 mewn 12 o oedolion yng Nghymru heb unrhyw gymwysterau, ond mae'n rhaid i ni gasglu a rhoi tystiolaeth o'r dirwedd yn well er mwyn i ni allu cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Mae gennym fylchau mewn sgiliau – rydym eisiau 'economi fedrus' ond yn ôl Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, "mae diffyg sgiliau yng Nghymru o'i chymharu â gwledydd OECD cystadleuol eraill a'r rhan fwyaf o'r DU".
- Dengys ffigurau mai 3 miliwn yw poblogaeth Cymru, mae 2 filiwn yn oedolion, 90mil yn ddi-waith, 200mil heb unrhyw gymwysterau, 700mil yn byw mewn tlodi.
- Mae gan rhy ychydig o oedolion y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn llawn mewn bywyd bob dydd, yn arbennig yn ymwneud â llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.

ii) Ymateb i'r Her

- Mae'n amser ailfeddwl yn radical am addysg yng Nghymru. Os nad ydym yn newid ein hymagwedd yna ni fyddwn yn gallu darparu'r gweithlu medrus sydd ei angen ar Gymru, a bydd gan lawer gormod o oedolion sgiliau sylfaenol gwael o hyd sydd yn golygu nad ydynt yn gallu cymryd rhan lawn mewn bywyd.
- I alluogi oedolion i gael mynediad i sgiliau fydd yn eu rhoi yn ôl ar y trywydd i waith, mae angen unigolion cadarn arnom sydd yn barod ac yn gallu manteisio ar y cyfleoedd y gall y Llywodraeth eu cynnig iddynt. Ni all rhaglenni o'r fath, ar ôl Cymunedau yn Gyntaf, fod ar wahân i addysg prif ffrwd, ac mae angen i'r dilyniant fod yn ddi-dor er mwyn datblygu a chynnal ymddiriedaeth unigolion.

iii) Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

- Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn aeddfed ac yn rhagweithiol mewn trafodaethau gyda DWP a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i alinio ymyriadau Cymru â rhaglenni ar draws y DU yn cynyddu er budd unigolion – yn arbennig i sicrhau trosglwyddo a dilyniant di-dor trwy raglenni ac i mewn i waith.
- Ymrwymiad parhaus i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i'w galluogi i wneud gwaith gwell, datganoli cyllideb a chyfrifoldeb i alluogi rhanbarthau i benderfynu beth sydd ei angen a'u galluogi i ddarparu hyn.
- Cyflwyno ymagwedd gytbwys i addysg ôl-orfodol ar draws AB ac AU trwy barhau i weithredu'r newidiadau a gyflwynir gan Adolygiadau Hazelkorn a Diamond fel pecyn. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp ymgynghori ar weithredu Hazelkorn a Diamond, gan ymgysylltu sefydliadau allweddol ar draws y sectorau i ymestyn yr elfennau ymarferol, gan gynorthwyo DfES i gyflenwi (gan gydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru'r gallu gofynnol i wneud hyn ar ei phen ei hun).

2. Rôl Addysg ôl-16 Wrth Daclo Tlodi

Noddwr: Lee Waters AC
Siaradwr Gwadd: Victoria Winckler, Prif Weithredwr, Sefydliad Bevan
Gwesteiwr: Cerys Furlong, y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Dyddiad: 14 Mehefin 2016, Tŷ Hywel

i) Yr Her

- Mae economi Cymru'n tyfu'n arafach na chyfartaledd y DU ac ni allwn ddibynnu ar welliannau cyffredinol mewn twf economaidd i godi nifer fawr o bobl allan o dlodi yng Nghymru.
- Ers y bleidlais i adael yr UE, mae gwerth sterling wedi gostwng sydd yn debygol o arwain at ostyngiad mewn safonau byw, a chynnydd mewn diweithdra. Y rheiny sydd â'r incwm isaf sydd

fwyaf tebygol o ddioddef. Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd busnesau yn llai hyderus yn buddsoddi, yn cynnwys buddsoddi yn eu staff.

- Mae rhagolygon tlodi plant yn debygol o gynyddu, hyd at 50% erbyn 2020, gan fod plant o deuluoedd incwm isel yn llai tebygol o wneud yn dda.
- Mae newidiadau i'r system fudd-daliadau gan Lywodraeth y DU yn debygol o arwain at bobl dlotaf Cymru yn mynd yn waeth eu byd.
- Gwyddom fod cymwysterau'n effeithio ar berygl unigolion o dlodi a bod y rheiny ar incwm isel yn llai tebygol o fod â chymwysterau. Fodd bynnag, gwyddom hefyd, er bod lefelau cymwysterau wedi cynyddu yng Nghymru, na chafwyd gwelliannau arwyddocaol mewn lefelau incwm. Mae hyn yn debygol o fod, yn rhannol, oherwydd niferoedd y bobl hŷn sy'n ymddeol heb unrhyw, neu ddim llawer o gymwysterau ffurfiol.
- Mae pobl nad ydynt yn gweithio tair gwaith yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau na phobl sydd mewn gwaith, fodd bynnag, gwyddom fod tlodi mewn gwaith yn broblem wirioneddol yng Nghymru.
- Bydd 1 mewn 3 o blant sy'n cael cinio ysgol am ddim yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd, ond nid yw hyn yn ddigon iddynt sicrhau swyddi sy'n talu'n dda yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.
- Mae tlodi yn gylch sydd yn anodd ei dorri, gyda hanes teuluol yn aml yn pennu llwyddiant plant.

ii) Ymateb i'r Her

- Nid yw rhaglen newydd y Llywodraeth yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at bolisïau na strategaethau i leddfu tlodi. Er bod llai o gyllid cyhoeddus yn golygu ei fod yn annhebygol y bydd rhaglenni ar raddfa fawr yn lle Cymunedau yn Gyntaf, mae'n rhaid cael ymrwymiad gwleidyddol clir a blaenoriaeth i'r holl gyllid cyhoeddus sy'n cyfrannu tuag at drechu tlodi.
- Mae dulliau o drechu tlodi wedi aros yn weddol debyg dros flynyddoedd lawer. Mae'n rhaid i ni gydnabod bod yr amser wedi dod i ystyried bod dulliau gwahanol yn gweithio mewn rhannau gwahanol o Gymru. Gwyddom y gall cymunedau lleol cryf sydd yn ceisio ymgysylltu unigolion fod yn effeithiol iawn yn eu cyflwyno i ddysgu pellach yn y gymuned, efallai ymlaen i goleg neu waith, lle mae mentrau cymunedol yn gweithio'n agos gyda darparwyr addysg, cyflogaeth a sgiliau.
- Gwyddom mai'r rheiny sydd bellach oddi wrth addysg neu gyflogaeth yw'r rhai sydd fwyaf parod i dderbyn dysgu yn y gymuned.

iii) Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

- Er gwaethaf cyfyngiadau ar gyllid, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o fuddsoddi mewn cyfleoedd addysg a hyfforddiant hygyrch ar gyfer oedolion yn y gymuned – mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, y sector addysg ôl-16, hyfforddiant a sgiliau a DWP gydweithio i lywio'r agenda hon.
- Dylai methodolegau ariannu roi cymorth i addysgwyr ymgysylltu â'r cymunedau sydd yn fwy anodd eu cyrraedd trwy ehangu prosiectau a chyfleoedd mynediad.
- Darparu mecanwaith cymorth sy'n rhoi mynediad at addysg - ymchwilio sut y gall y mynediad i 30 awr o ofal plant am ddim gefnogi rhieni i ailymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.
- Sicrhau polisïau sydd yn cyd-fynd er mwyn cefnogi llwybrau dilyniant a llwybrau gyrfa clir i ysgogi uchelgais ymysg y bobl a gollodd gyfleoedd.

3. Gwerth Sgiliau i'r Economi

Noddwr: Llŷr Gruffydd AC
Siaradwr Gwadd: Yr Athro Dylan Jones-Evans, UWE Bryste
Gwesteiwr: Iestyn Davies, ColegauCymru
Dyddiad: 7 Gorffennaf 2016, Oriel, Senedd

i) Yr Her

- Creu polisïau sydd yn cyd-fynd er mwyn cefnogi rôl addysg, hyfforddiant a sgiliau ac ymgysylltu â chyflogwyr sydd yn gwella hyfedredd ac yn cefnogi twf economaidd yng Nghymru yn y dyfodol.

- Parhau i ddarparu addysg a hyfforddiant sydd yn addas at y diben ar draws pob lefel a sector i gefnogi anghenion newidiol y cyflogwr yng Nghymru.
- Mae diffyg cymorth arloesol, ysbryd entrepreneuraidd a sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhwystro twf busnesau bach posibl yng Nghymru.
- Mae BBaCh yng Nghymru yn llai tebygol o ymgysylltu mewn hyfforddiant. Cafwyd tystiolaeth o hyn mewn ymchwil ddiweddar gan GolegauCymru, FSB Cymru a Phrifysgol De Cymru (USW) i weithgaredd hyfforddiant yn y sector Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth, a'r diffyg ymgysylltu BBaCh a micro fusnesau yn y meysydd hyn.
- Mae'n rhaid i addysg a hyfforddiant fod yn berthnasol i sefyllfaoedd go iawn.
- Yn ôl arolwg y CBI / Pearson yn 2015, yn amlinellu'r her sgiliau y mae'r DU yn ei hwynebu (310 o gwmnïau, sydd gyda'i gilydd yn cyflogi dros filiwn o bobl)[1]:
    a) Mae 2 ym mhob 3 busnes (68%) yn disgwyl i'w hangen am staff â sgiliau lefel uwch dyfu yn y blynyddoedd i ddod, ond mae dros hanner y rheiny a arolygwyd (55%) yn ofni na fyddant yn gallu cael gafael ar ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol.
    b) Mae'r galw am weithwyr medrus iawn yn arbennig o gryf mewn sectorau sydd yn hanfodol i gydbwyso'r economi - peirianneg, gwyddoniaeth ac uwchdechnoleg (74%), adeiladu (73%) a gweithgynhyrchu (69%).
- Cred 75% o sefydliadau y dylai staff fod yn gwneud cymwysterau proffesiynol ond yn gwrthod talu amdanynt. Mae gweithgareddau uwchsgilio ymysg cyflogwyr presennol yn dal yn isel. Sut gallwn ni ddangos buddion ymgysylltu â'u darparwyr addysg a hyfforddiant lleol i gyflogwyr?
- Ni ellir pwysleisio pwysigrwydd sgiliau meddal a rôl addysgwyr yn y maes hwn ormod o ran gwneud dysgwyr yn fedrus, yn alluog ac yn barod at waith.

ii) Ymateb i'r Her

- Mae'n rhaid i'r Llywodraeth, addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 a diwydiant gydweithio i ddarparu'r ateb i'r disgwyliad o anghenion busnes - mae angen i bob polisi gyd-fynd a bod yn gysylltiedig. Mae'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gyfle i gyd-fynd yn agosach a chydweithredu traws-sector ar gyfer symud yr agenda sgiliau ymlaen.
- Mae angen i sgiliau a chymwysterau ategu ei gilydd a chael eu defnyddio gyda'i gilydd.
- Chwalu'r atalfa rhwng addysg ffurfiol a hyfforddiant cymhwysol.

iii) Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

- Alinio polisïau rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, addysg, hyfforddiant a sgiliau a busnes sydd yn torri'r atalfeydd rhag cael mynediad i ddarpariaeth sgiliau effeithlon. Mae'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gatalyddion hanfodol yn y maes hwn.
- Darparu cynnig ôl-14 yn seiliedig ar sgiliau wedi ei adnewyddu, gan sicrhau parch cyfartal i lwybrau academaidd a galwedigaethol, a pharatoi pobl ifanc am ofynion y gweithle.
- Cefnogi gweithgareddau gyda gweledigaeth strategol ac ymrwymo i gynllun sgiliau ôl-14 ar gyfer Cymru.
- Sicrhau bod ystod eang o gymwysterau'n cael eu cynnig ond ymgyrchu dros raglenni sgiliau uwch (Crefftwr Meistr, Prentisiaethau Uwch a Gradd) a sefydlu Cyngor Achredu Technegol yn y DU.
- Buddsoddi mewn addysg bellach rhan-amser gan alluogi unigolion i ailhyfforddi ac ailsgilio er mwyn dod o hyd i swyddi a gyrfaoedd newydd.
- Hyrwyddo a chefnogi arloesi ac entrepreneuriaeth, ceisio creu canolfannau i gefnogi Hyfforddiant Addysg Galwedigaethol (VET) (addysg bellach ac uwch). Mae model Basg yn datblygu prosiectau arloesol ym meysydd technoleg, hyfforddiant i athrawon, TGCh a rheolaeth.
- Buddsoddi mwy mewn cymorth ar gyfer gweithgynhyrchu a defnyddio'r lle mewn cyfleusterau addysg, hyfforddiant a sgiliau i gefnogi busnes ac annog busnesau newydd i brofi prototeipiau a deunydd, cynyddu prosesau gweithgynhyrchu a hyd yn oed profi'r farchnad ar gyfer y cynnyrch newydd gyda thaith brawf (yn debyg i fodel y tair Canolfan Technoleg Bwyd sy'n bodoli yng Nghymru). Bydd angen buddsoddi mewn cyfalaf i gefnogi'r datblygiad hwn.

1 http://www.cbi.org.uk/news/skills-emergency-could-starve-growth-cbi-pearson-survey

4. Sgiliau Iaith Gymraeg i'r Gwaith

Siaradwr Gwadd: Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg
Gwesteiwr: Iestyn Davies, ColegauCymru
Dyddiad: 4 Awst 2016, Stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol

i) Yr Her

- Sut i baru'r cyflenwad o siaradwyr Cymraeg â'r galw yng Nghymru a chefnogi nod Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Mae rôl addysg, hyfforddiant am sgiliau ôl-16 yn cyflawni hyn yn hanfodol i lwyddiant.
- Mae galw am weithwyr dwyieithog yn y sector cyhoeddus a'r gweithle yng Nghymru.
- Mae darpariaeth addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 Cymraeg/dwyieithog yn dal yn anghyson ar draws Cymru, mae ardaloedd sy'n rhagori ond mae'n dal yn loteri côd post o ran darpariaeth ieithyddol cyfleoedd galwedigaethol ôl-16 (a rhai cyfleoedd academaidd) yng Nghymru.
- Newid amgyffrediad o werth dilyniant galwedigaethol ieithyddol ôl-16 Cymraeg.

ii) Ymateb i'r Her

- Dod â'r sector addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 ynghyd i gydweithredu o ran darparu cyfleoedd galwedigaethol ieithyddol mewn ymateb i'r galw cynyddol gan gyflogwyr a sgiliau dwyieithog ar lefelau a gallu amrywiol yn y gweithle.
- Mae gan Gymwysterau Cymru rôl allweddol yn sicrhau mynediad at gymwysterau Cymraeg a dwyieithog (ffocws ar brif feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru) ar gyfer datblygiad dwyieithog sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi a hwyluso creu adnoddau dwyieithog amserol i gynorthwyo addysgu dwyieithog.
- Mae'n rhaid esblygu gwasanaeth Sgiliaith, y sefydliad sy'n cynghori ar fethodoleg a modelau dysgu dwyieithog/Cymraeg i'r sector addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16, a'i ddatblygu i gefnogi anghenion/y galw am staff addysgu dwyieithog ymhellach.
- Mae angen buddsoddiad ar y Sector i fwydo'r awydd am newid. Bydd cydweithredu traws-sector ar draws y system addysg gyfan yn cefnogi datblygiad ac yn osgoi dyblygu gwasanaethau yn ddiangen.
- Mae'n rhaid i gyrff rheoli gydnabod bod tirwedd addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 yn Gymraeg yn newid a dylid ailystyried dulliau adolygu a chymorth ar gyfer y sector.

iii) Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

- Mae angen strategaeth a chynllun cynhwysfawr ar gyfer addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16; ysgolion a phrifysgolion sy'n edrych ar gynnydd mewn defnydd iaith yn ogystal â dewis galwedigaethol ac academaidd. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon edrych ar rôl ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau a dysgu gydol oes i gydnabod eu cyfrifoldeb i ddatblygu gweithlu Cymraeg hyderus.
- Cyfle i Yrfa Cymru hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach fel sgil cyflogadwyedd. Buddsoddi mewn adolygiad LMI ar draws Cymru o ba sgiliau a lefelau ieithyddol sydd eu hangen yn y 3, 5 a'r 10 mlynedd nesaf.
- Defnyddio'r canolfannau Dysgu Cymraeg (Cymraeg i Oedolion) i gefnogi darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16. Galluogi pobl i wneud cynnydd i'r Gymraeg neu ddysgu Cymraeg ymhellach i gefnogi integreiddio gyda gweddill y sector.
- Buddsoddi yn natblygiad y Gymraeg ar draws addysg alwedigaethol sef y sector sydd yn hyfforddi ac yn ailhyfforddi siaradwyr Cymraeg yn lleol.
- Cymwysterau Cymru i arwain y gwaith o gefnogi'r sector addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 i ddarparu cymwysterau, adnoddau ac asesiadau sydd yn addas at y diben yng Nghymru ddwyieithog.

5. Darparu Prentisiaethau o'r Safon Uchaf yng Nghymru

Noddwr: Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC
Siaradwr Gwadd: Paul Byard, Cyfarwyddwr Cenedlaethol - Cymru, EEF Sefydliad y Gweithgynhyrchwyr
Gwesteiwr: Sarah John, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 13 Medi 2016, Tŷ Hywel

i) Yr Her

- Er yn her sy'n cael ei chroesawu ac y gellir ei chyflawni, mae angen 'ymagwedd system gyfan' ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "ddarparu isafswm o 100,000 o brentisiaethau pob oed o ansawdd uchel yng Nghymru yn ystod tymor y cynulliad hwn" er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni, a bod prentisiaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu.
- Gall y gwahaniaethau cynyddol i bolisi prentisiaethau ar draws y DU, yn cynnwys dyfodiad 'perchnogaeth cyflogwr' yn Lloegr sydd wedi creu'r Ardoll Brentisiaethau a'r Safonau Prentisiaethau (mewn geiriau eraill Trailblazers) greu dryswch ymysg cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr ynghylch beth yw Prentisiaeth, ac ar gyfer pwy y caiff ei darparu.
- Yn 2015, dim ond 488 (1.5%) o bawb a adawodd yr ysgol yn 16 oed (Blwyddyn 11) aeth ymlaen i wneud prentisiaeth yn syth. Mae'r ffigur hwn yn gostwng i 163 (1.9%) o'r garfan sydd yn gadael yr ysgol yn 19 oed (Blwyddyn 13). Er gwaethaf y rhethreg gyffredinol am yr angen i gael parch cyfartal tuag at feysydd galwedigaethol ac academaidd, mae llawer o waith i'w wneud o hyd.
- Mae cyflogwyr (a chyfleoedd cyflogaeth) yn ganolog i raglen brentisiaeth effeithiol. Bydd angen i'r economi dyfu, er mwyn rhoi hyder i fusnesau fuddsoddi, er mwyn i ni gael Rhaglen Brentisiaeth o Safon Fyd-eang yng Nghymru.

ii) Ymateb i'r her

- Mae darpariaeth bresennol prentisiaethau o ansawdd uchel ar draws Cymru, p'un ag yw'n cael ei gyflwyno gan ddarparwyr hyfforddiant annibynnol neu gan Golegau AB. Mae'r her o gynyddu maint y ddarpariaeth ar lefelau uwch yn cael ei chroesawu gan bob darparwr, fydd yn parhau i ddarparu ansawdd uchel i ddysgwyr a chyflogwyr.
- Mae prentisiaethau pob oed yng Nghymru yn gyfle sy'n cael ei groesawu i gefnogi anghenion cyflogwyr. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn glir bod hyn yn cael ei ddylanwadu gan feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.
- Mae angen i'r holl bartneriaid sydd yn gysylltiedig â datblygu a chyflenwi'r rhaglen brentisiaeth ar draws Cymru ystyried materion gweithio ar draws ffiniau i gyflogwyr ac unigolion, ac y dylai 'trosglwyddadwyedd a hygludedd' fod yn ganolog i bopeth sy'n cael ei wneud.
- Gyda dyfodiad Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru, bydd angen i ddarparwyr prentisiaethau ddatblygu'r hyn y maent yn ei gynnig er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion busnes ac economïau rhanbarthol (sy'n cael eu llywio gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) a'r unigolion hynny sydd eisiau mynd i mewn i'r farchnad swyddi.
- Mae'r sector yn croesawu'r targed hwn ac yn croesawu mwy o gymorth yn cyflwyno atebion creadigol.

iii) Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

- Gydag ond 30% o brentisiaethau yn 16-19 oed, bydd angen i Lywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a darparwyr ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ganddynt i sicrhau bod pobl ifanc (a'u rhieni) yn cael eu hysbysu ynghylch buddion gwneud prentisiaeth. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod mynediad priodol i gyngor ac arweiniad diduedd ar gyfer pob person ifanc, fydd yn eu galluogi i wneud y penderfyniad gorau iddyn nhw, ac nid cael eu dylanwadu gan fudd darparwyr (ysgol, coleg neu ddarparwyr hyfforddiant).
- Bydd angen i Lywodraeth Cymru, cynrychiolwyr cyflogwyr a darparwyr grynhoi'r rhwydwaith cyflogwyr yng Nghymru i sicrhau bod eu prosesau recriwtio diofyn yn cyd-fynd â'r rhaglen brentisiaethau. Mae hyn yn golygu cynyddu'r cyfleoedd i hyrwyddo astudiaethau achos cadarnhaol unigolion a chyflogwyr sydd wedi elwa ar brentisiaethau. Mae ymgyrchoedd a digwyddiadau presennol yn cynnwys y Gwobrau Prentisiaethau, Diwrnod VQ, Wythnos Addysg Oedolion, yn gyfle i wneud hyn, ond dylai ymgyrchoedd CC a Marchnata eraill a gefnogir gan Lywodraeth Cymru gyd-fynd yn well hefyd.

- Bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phob cyflogwr (yn cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus) sydd yn talu'r Ardoll Brentisiaethau i ddatblygu ymagwedd 'Prentisiaethau yn Gyntaf' tuag at recriwtio, hyfforddi a datblygu eu gweithle.
- Er mwyn cynyddu maint y prentisiaethau lefel uwch, dylai 'Llwybrau Prentisiaethau' clir gael eu datblygu ar gyfer dysgwyr o bob oed, yn cynnwys datblygu Prentisiaethau Gradd, a chysylltiadau â Chydnabyddiaeth Broffesiynol.

Casgliad

Mae'r gyfres hon wedi nodi bod angen eglurder yn ymwneud â rôl a diben addysg bellach yng Nghymru, ac i alluogi darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ac oedolion trwy ddadansoddiad ystyrlon o'r hyn sydd ei angen, yn hytrach na dehongliad cul o fethodoleg ariannu bresennol. Yn rhy aml rydym yn meddwl am addysg a hyfforddiant fel rhywbeth ar wahân i'r heriau pwysig eraill yng Nghymru - iechyd a lles, tlodi, adfywio cymunedau, diwylliant, iaith ac ymgysylltu dinesig. Mewn gwirionedd, mae rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i fod yn gyfranogwyr cadarn a hyderus yn eu teuluoedd, eu cymunedau a'n heconomi o fudd i'r holl feysydd hyn.

Mae'r digwyddiadau yn sicr wedi cydnabod bod cytundeb o ran angen i flaenoriaethu ac ymrwymiad ar y cyd i gyflogadwyedd pob oed a chynaliadwyedd hirdymor. Mae pobl a sgiliau wrth wraidd ein ffyniant economaidd. Mae angen modelau cyflenwi arloesol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr a Chymru. Gydag addysg dda a'r sgiliau cywir, mae gan bawb y cyfle gorau i gael swydd a datblygu eu gyrfa.

Mae lefelau diweithdra yn isel, fodd bynnag, mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn dal yn uchel. Mae'n rhaid i Gymru gipio cyfleoedd newydd i dyfu. Fodd bynnag, nid yw gwaith bob amser yn talu, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod cyflogeion yn cael cymorth i wneud cynnydd i swyddi medrus â thâl uwch. Mae angen i ni hefyd gynyddu cynhyrchiant ein gweithlu.

Mae angen gweithlu amrywiol wedi ei hyfforddi arnom, sy'n cael ei gefnogi gan ymgysylltu busnes yn llwyddiannus a'r amgylchedd polisi cywir. Mae angen i ni feddwl yn fwy cyfannol am y ffordd yr ydym yn ariannu addysg yn ystod cwrs bywyd, cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gweithio'n rhagweithiol gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod unigolion yn gwerthfawrogi addysg a hyfforddiant, yn buddsoddi ynddo ei hunain yn ogystal ag ymgysylltu mewn rhaglenni wedi eu cefnogi gan y Llywodraeth.

Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fentrus yn gosod a chyfleu ei gweledigaeth a'i strategaeth ar gyfer addysg, sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru, a bod yn barod i dderbyn bod rhai ymagweddau blaenorol heb weithio. Tra bod y dymuniad i leihau ymlediad polisïau newydd yn ddealladwy, oherwydd cyflymder y newid yn yr amgylchedd allanol, mae'n ymddangos yn angenrheidiol (ac yn ddarbodus) i ailymweld ac ailddatgan polisi sgiliau a chyflogadwyedd yn rheolaidd er mwyn cynnal momentwm a sicrhau bod pob parti – y wladwriaeth, unigolion, darparwyr a chyflogwyr – yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ei angen.

Dymuna'r tri phartner ColegauCymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r digwyddiadau o Aelodau'r Cynulliad a Siaradwyr Gwadd i'r rheiny wnaeth fynychu.

Atebion Polisi
Policy Solutions